Paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol

Dyletswyddau a chyfrifoldebau Cynghorau Tref a Chymuned

Cymerwyd y dyfyniadau canlynol o'r *Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol*. Dogfen gyfeirio yw hon ar gyfer cynllunwyr a phobl eraill sy'n rhan o baratoi CDLl – nid yw'n bolisi cenedlaethol.

Casglu tystiolaeth ac amcanion

'Dylid ystyried ymgysylltu â datblygwyr a thirfeddianwyr yn gynnar er mwyn cael gwybodaeth am safleoedd posibl nas nodwyd eisoes …
Efallai y bydd gan Gynghorau Tref a Chymuned ynghyd ag Aelodau lleol awgrymiadau ar gyfer safleoedd sy'n addas ar gyfer tai fforddiadwy a chyfleusterau lleol eraill hefyd.'
(adran 5.4.4)

Opsiynau Strategol a'r Strategaethau Dewisol

'Gwahoddir rhanddeiliaid allweddol i gymryd rhan mewn trafodaeth ar yr opsiynau strategol; cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ar ôl nodi'r Dewis Strategaeth.' (adran 6.2)

'Drwy gynnwys cyrff megis cynghorau cymuned yn gynnar, gall [awdurdodau cynllunio lleol] adlewyrchu pryderon lleol a hynodrwydd lleol yn well wrth baratoi'r Dewis Strategaeth.' (adran 6.2)

Adnabod Opsiynau Strategol

Mae…yn ofynnol i gynnwys 'cyrff ymgynghori penodol' [sy'n cynnwys cynghorau cymuned] a 'chyrff ymgynghori cyffredinol' perthnasol yn y broses o benderfynu ar ddewis strategaeth… Dylai CCC yr awdurdod nodi ffyrdd o geisio deialog ac iddo ffocws gyda buddiannau o'r fath. Er enghraifft, efallai y bydd yn briodol cynnwys cynrychiolwyr o grwpiau mantell o gynghorau cymuned a buddiannau masnachol mewn cyfres o ddigwyddiadau lle y caiff y dystiolaeth ei chyflwyno ac y caiff opsiynau amgen ar gyfer yr ardal eu datblygu.' (adran 6.3.4)